in view

gwanwyn 09

cymdeithas tai newydd

Datblygiad arfaethedig Newydd yng Nghei Jackson, Glannau'r Barri

Os hoffech chi gael y cylchlythyr hwn mewn fformat neu iaith wahanol cysylltwch â'ch swyddfa leol

www.newydd.co.uk

Cymeradwyo panel darllen Cymeradwyo panel darllen

cynnwys

arolwg tenantiaid	t2
gwella gwasanaethau	t4
swyddfa archwilio Cymru	t5
newyddion cynnal a chadw	t6
eich cyfle chi i gymryd rhan	t10
Newydd yn ôl ar y ffordd	t11
datblygiadau newydd	t12
taith tenantiaid i trafford hall	t15
datblygu yn y gymuned	t16
Newydd yn creu sblash	t17
ymddygiad gwrthgymdeithasol	t18
panelau cymunedol	t19
cyllid i grwpiau tenantiaid	t20
marchnad arian	t21
dryslyd ynglŷn â'ch tâl gwasanaeth?	t22

arolwg tenantiaid

Fel y crybwyllwyd gennym yn yr "In View" diwethaf, mae'r atebion i Arolwg Tenantiaid 2008 wedi cael eu hastudio, eu trafod gan y Panelau Cymunedol a Bwrdd Newydd, ac mae cynllun gweithredu wedi ei baratoi i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennych chi.

Mae'r cynllun gweithredu yn 14 tudalen o hyd. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau i'w weld isod. Os hoffech chi wybod mwy o fanylion, neu weld gweddill y cynllun gweithredu, cysylltwch ag un o'r swyddfeydd tai:

Swyddfa'r Fro: 01446 701501

Swyddfa'r Cymoedd: 01443 408080

Swyddfa'r Drenewydd: 01686 621965

Dywedoch chi	Beth a wnaethom / a wnawn ni
Y ddau bryder mwyaf oedd ymddygiad anghymdeithasol a'r gwasanaeth atgyweirio.	Gyda'r Panelau Cymunedol rydyn ni wedi cynnal adolygiad llwyr o'n gwasanaeth delio ag ymddygiad cymdeithasol a lansio gwasanaeth llawer iawn gwell (edrychwch ar dudalen 18). Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth cynnal a chadw (edrychwch ar dudalen 6) gan gynnwys cynnydd yn niferoedd y staff, hysbysu ar-lein am atgyweirio a gwell gwasanaeth teleffon ar gyfer hysbysu am atgyweirio.
Pryderon ynghylch ansawdd garddio stadau a gwasanaeth glanhau ar gontract.	Mae archwilio cyson yn digwydd ar stadau erbyn hyn er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaethau yn uchel.
Nid yw Newydd, efallai, yn deall anghenion eu tenantiaid yn llwyr.	Bu "Barn y Tenantiaid" yn thema yng nghynllun busnes y Gymdeithas am y ddwy flynedd ddiwethaf ac rydym yn bwriadu darganfod mwy am y gwasanaethau a'r wybodaeth yr ydych eu hangen. Un enghraifft yw y byddwn ni'n cydweithio gyda thenantiaid eleni i ddarparu'r wybodaeth perfformiad yr ydych CHI eisiau ei weld, nid yr un yr ydyn ni eisiau i chi ei weld. Rydym wedi cynyddu'n sylweddol nifer y gwahanol ffyrdd ble gallwch chi gyfranogi yn y Gymdeithas a gadael i ni wybod sut yr hoffech chi weld pethau'n cael eu gwneud yn wahanol.
Materion yn ymwneud â gwresogi yn eich cartref (rhy ddrud, anodd ei reoli ac ati).	Rydym wedi datblygu Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni yn adeiladau Newydd. Mae'r strategaeth yma'n mynnu fod Newydd yn nodi pa denantiaid sydd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd ac yn mynd i'r afael ag achosion tlodi tanwydd trwy wella insiwleiddio yn y cartref a helpu tenantiaid i ddod o hyd i'r prisiau tanwydd mwyaf ffafriol.

Argraffwyd ar bapur eilgylch – Dylunio ac argraffu gan Carrick

Dywedoch chi	Beth a wnaethom / a wnawn ni
Dylem archwilio cartrefi yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod tenantiaid yn eu cadw mewn cyflwr da.	Rydym wedi cyflwyno polisi Archwilio Cartrefi sy'n rhoi hawl i ni alw mewn cartrefi lle'r ydyn ni'n credu y gall fod problem ynglŷn â'r cyflwr.
Fe ddylem wirio ymgeiswyr cyn cynnig eiddo iddyn nhw.	Yn anffodus does gennym ni ddim hawl i wirio ymgeiswyr cyn cynnig eiddo iddyn nhw – fe fyddwn ni, fodd bynnag, yn gofyn am eirda ac fe allwn ni yn awr weithredu "Polisïau Gosod Lleol" sy'n golygu y gallwn atal rhai grwpiau o bobl rhag symud i'n stadau am gyfnod penodol o amser – er enghraifft, peidio â gosod ddim ond i bobl dros 40 oed.
Mae yna broblemau gyda thaliadau gwasanaeth.	Gyda help y Panelau Cymunedol rydym wedi adolygu'n llwyr y ffordd yr ydym yn pennu, yn ymgynghori ac yn adolygu taliadau gwasanaeth bob blwyddyn – edrychwch ar dudalen 19.
Ambell waith fydd dim ymateb i negeseuon sy'n cael eu gadael gyda'r staff.	Rydym wedi bod yn adolygu'n ffordd o ymdrin â gofal cwsmeriaid gyda'n staff a byddwn yn ail ddatgan fod angen ymateb i BOB neges.
Bod y system dewislen ar y teleffon yn rhy hir a chymhleth.	Rydym wedi newid y systemau dewislen ar y ffôn i lawr i ddau ddewis – dewis 1 yw'r llinell frys at gyfer atgyweirio ac mae dewis 2 ar gyfer pob ymholiad arall.
Eich bod eisiau gweld mwy o staff allan ar y stadau a'ch bod am i'r swyddfeydd rhanbarthol (Broad Street, Glyn-taf a Thŷ Dewi Sant) gwtogi ar eu horiau agor er mwyn cyflawni hyn. Fe ddywedoch chi hefyd mai'r ffôn oedd eich prif ddull o gysylltu gyda ni ac y dylen ni ystyried mwy o wasanaethau o ganolfannau lleol.	Byddwn yn adolygu'n llawn y ffordd yr ydyn ni'n cyflenwi gwasanaethau tai o'n swyddfeydd rhanbarthol eleni. Mewn cydweithrediad â'r Panelau Cymunedol byddwn yn ystyried a allwn ni ddarparu mwy o wasanaethau lleol i'ch ardal benodol chi trwy fflatiau cymunedol a chymorthfeydd, yn hytrach na swyddfeydd rhanbarthol.
Dylai fod gennym dair prif flaenoriaeth wrth wella eiddo, sef: • Ceginau newydd • Ystafelloedd ymolchi newydd • Gwres canolog.	Mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen gynnal a chadw sydd yn yr arfaeth a'r rhain fydd tri phrif faes ein gwaith yn y 2-3 blynedd nesaf.
Bod angen i ni newid ein ffordd o bennu ac ymgynghori ynglŷn â'n taliadau gwasanaeth.	Sefydlodd y Panel Cymunedol Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar daliadau gwasanaeth, sydd wedi cydweithio gyda'r Gymdeithas i adolygu'n llwyr y ffordd y mae taliadau gwasanaeth yn cael eu pennu a'r ymgynghori yn eu cylch. Cymerwch olwg ar yr erthygl ar dudalen 22 i gael mwy o wybodaeth.
Mai ychydig o awydd sydd yna i sicrhau unrhyw gymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr newydd.	Byddwn yn adolygu'r ffordd yr ydym yn annog cyfranogaeth trwy ddefnyddio cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr, a chyda'r Panel Cymunedol byddwn yn edrych ar ffyrdd eraill llai ffurfiol o gael preswylwyr i gyfranogi.
Fod 30% ohonoch wedi cael pobl ar garreg y drws yn cynnig benthyg arian a bod chwarter y rheini wedi derbyn y cynnig	Rydym wedi datblygu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n achosi tlodi. Rydym hefyd yn gwneud hyn yn thema ar gyfer yr ŵyl Tenantiaid eleni ac yn gobeithio helpu pobl i ddod o hyd i ffyrdd rhatach o gael credyd. Edrychwch ar dudalen 21 i gael mwy o fanylion.

Wrth gwrs roedd yna lawer o bethau cadarnhaol a godwyd gennych yn yr arolwg – mae boddhad gyda'r gwasanaeth atgyweirio wedi gwella, boddhad gyda'ch cartref yn uchel, ac roedd y boddhad gyda nifer o'r gwasanaethau y mae Newydd yn eu darparu yn uchel iawn. Ar y cyfan, roedd yna lefel boddhad o 82 y cant gyda gwasanaethau Cymdeithas Tai Newydd.

Byddwn yn cynnal arolwg llawer byrrach yr haf hwn a fydd yn edrych a yw'n perfformiad yn gwella byddwn yn gofyn i chi am fwy o fanylion am rai o'r materion yr ydych chi wedi eu codi.

gwella gwasanaethau – gyda'ch help chi

Mae Newydd bob amser yn ceisio gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i chi a bob blwyddyn fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar feysydd allweddol lle'r ydych chi wedi dweud fod angen gwelliannau. Yn ystod 2008 fe gynhalion ni chwe adolygiad gwelliant gyda mewnbwn gan denantiaid, aelodau'r Bwrdd a staff yn ogystal ag arbenigwyr o'r tu allan i'r sefydliad a roddodd syniadau newydd i ni ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Edrychwch ar yr erthygl ar dudalen 18.

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn annerbyniol a byddwn yn gweithredu yn erbyn yr ychydig sy'n gyson yn achosi problemau i'w cymdogion. Rydyn ni'n credu y byddwch chi'n gweld gwelliant mawr yn ein hymateb i'r mater hwn.

Os ydych chi'n pryderu am ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'ch Swyddog Tai neu'ch swyddfa leol yn y lle cyntaf. Fe fyddwn ni'n hapus i drin eich ymholiad yn gyfrinachol ac yn esbonio sut y gallwn ni helpu.

Mynediad i Wasanaethau

Waeth pa mor dda yw gwasanaethau, dydyn nhw o ddim gwerth os na all pobl gael mynediad iddyn nhw. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn adolygu'n gwasanaethau er mwyn gweld a yw hi'n hawdd i bawb eu defnyddio. Roedd yr adolygiad yn golygu llawer o waith caled gan y staff, aelodau'r Bwrdd, tenantiaid ac Is-grŵp Cydraddoldeb ac Anabledd Newydd (NEADS). Darganfu'r adolygiad ein bod ni'n gwneud cynnydd da a bod gennym ymroddiad cryf i ddarparu gwasanaethau hawdd eu defnyddio, ond bod rhai materion yn ein dal yn ôl. Dangosodd yr adolygiad:

- Nad yw'r wybodaeth ddiweddaraf gennym bob amser ynglŷn ag anghenion cyfnewidiol ein tenantiaid.
- Y gall fod rhai o'n gwasanaethau yn anodd i rai pobl eu defnyddio, er enghraifft pobl anabl neu bobl gydag anhawster gweledol.
- Mae angen i ni weithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau fod ein gwasanaethau'n cael digon o hysbysrwydd a'u bod yn addas ar gyfer pobl sydd ddim, p bosib, yn ymwybodol ohonyn nhw.

Rydym nawr yn gweithio'n galed i fynd i'r afael a'r materion hyn ac yn ddiolchgar am yr ymdrech a roddodd pawb i'r gwaith pwysig hwn.

Cynnal Eich Cartrefi

Rydym wedi cynnal pedwar arolwg o'r gwasanaethau atgyweirio. Buom yn edrych ar y gwasanaeth llawn, o'r cysylltiad cyntaf y byddwch yn ei wneud gyda ni i hysbysu am atgyweiriad trwodd at yr atgyweirio sy'n cael ei wneud gan ein contractwyr. Edrychwyd hefyd ar y gwelliannau yr ydym yn eu gwneud er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni Safon Ansawdd Gwaith Cymru.

Cytunodd yr adolygiad gyda'r hyn a ddywedoch chi eisoes sydd angen ei wella:

- Dywedoch chi wrthym y byddech yn hoffi gweld gwasanaeth apwyntiadau gwell, a gwell gwasanaeth allan o oriau
- Mae angen i ni wella'r wybodaeth yr ydym yn ei darparu am ein cynlluniau i wella'ch tai er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru a rhoi gwybod i chi os a pham y bydd ein cynlluniau'n newid
- Rydych chi eisiau gwybodaeth well am y gwasanaeth atgyweirio a gwybod am beth y mae Newydd yn gyfrifol.

Rydyn ni nawr yn gwneud y gwelliannau hyn ynghyd â rhai eraill i'r gwasanaeth atgyweirio ac mae llawlyfr atgyweirio yn cael ei baratoi ar gyfer tenantiaid.

Mae 2009 yn argoeli bod cyn brysured â 2008 wrth inni ddechrau adolygu peth o'n gwaith wrth reoli Newydd. Eleni fe fyddwn yn edrych ar sut yr ydym yn rheoli'n cyllid, sut yr ydym yn sicrhau na fydd pethau'n mynd o'u lle a sut y mae'n Bwrdd yn rhedeg y Gymdeithas. Bob blwyddyn rydyn ni hefyd yn adolygu'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol a sut yr ydym yn cael tenantiaid a phreswylwyr i gyfranogi.

Diolch o galon i bawb a fu'n ein helpu i wella'n gwasanaethau yn 2008. Fydden ni ddim wedi gallu gwneud hynny heboch chi.

swyddfa archwilio Cymru

Yn ôl yn 2006 cawsom ymweliad gan dîm o arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a fu'n adolygu'n gwaith ac a wnaeth nifer o awgrymiadau sut y gallen ni wella'n gwasanaeth. Yn anffodus fe gymerodd adroddiad terfynol yr arolygwyr fwy na dwy flynedd i'w baratoi, felly yn 2008 fe ddaethant yma ar ymweliad arall i edrych ar y gwelliannau yr oeddem wedi eu gwneud er 2006. Mae'r adroddiad crynodeb a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei gynnwys gyda'r argraffiad hwn o In View.

Rydym wedi defnyddio'r adborth gan arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd â mewnbwn gan ein tenantiaid, rhanddeiliaid, staff ac aelodau'r Bwrdd i ddatblygu a gwella eto ein gwasanaethau i denantiaid a'n swyddogaeth fel darparwyr cartrefi fforddiadwy o safon uchel.

Rydym yn awyddus i wella mwy eto ar ein perfformiad ac yn croesawu'r ffaith fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno i adolygu'r tri maes gwasanaeth lle'r oeddem wedi cael beirniadaethau llai na boddhaol. Roedd yr adolygiad yn gyfle i ystyried y cynnydd a wnaed ac i ddynodi'r gwaith sydd eto i'w wneud. Cadarnhaodd canlyniad yr adolygiad ein hasesiad ni'n hunain o'r cynnydd a wnaed er 2006 a chadarnhaodd casgliadau'r archwiliad fod y sefydliad yn codi safonau wrth gyflenwi gwasanaeth.

Logo Newydd

Bydd tenantiaid sy'n aelodau o Newydd 90 ac aelodau o'r Panelau Cymunedol yn gwybod fod Newydd wedi edrych ar y posibilrwydd o newid logo Newydd yn ystod y 6 mis diwethaf. Y rheswm dros wneud hyn oedd ein bod yn teimlo fod y logo presennol wedi hen ddyddio. Fe ddefnyddion ni Carrick i'n helpu gyda dyluniadau newydd a chynhaliwyd nifer o arolygon ymhlith tenantiaid, staff ac aelodau o Fwrdd Newydd er mwyn cael eu sylwadau a'u hadborth.



Gofynnodd nifer ohonoch pam ein bod ni'n meddwl bod angen newid y logo ac roedden nhw'n teimlo mai gwastraff amser ac arian oedd hyn gan nad oedd dim o'i le ar y logo presennol. Cafodd yr adborth a dderbyniwyd gan denantiaid a staff ei drafod gyda Bwrdd Newydd a chan nad oedd yna gefnogaeth glir i newid y logo, cytunodd y Bwrdd y dylen ni gadw at y logo presennol.

Felly fydd logo a hunaniaeth Newydd ddim yn newid.



newyddion cynnal a chadw

Tynnodd rhifyn y Gaeaf o gylchgrawn In View sylw at nifer o newidiadau a wnaethom i'r ffordd y mae'r gwasanaeth atgyweirio yn cael ei gyflenwi. Ers rhifyn y Gaeaf, fodd bynnag, yr ydym wedi cyflwyno, neu'n bwriadu cyflwyno, rhai newidiadau newydd gyda'r nod o wella'r gwasanaeth cynnal a chadw yr ydych chi'n ei dderbyn.

Y prif newidiadau y mae Newydd wedi eu cyflwyno ers y rhifyn diwethaf o In View yw:

- Newidiadau i'n gwasanaeth atgyweirio mewn argyfwng allan o oriau swyddfa (gweler gyferbyn)
- Penodi contractwr newydd i wasanaethu systemau nwy yn y Drenewydd.
- Cyflwyno trefn newydd ar gyfer archwilio stadau
- Croesawu dau aelod staff newydd i'r tîm cynnal a chadw
- Cyflwyno meddalwedd rheoli galwadau ar ein llinell atgyweirio cynnal a chadw

Rydym yn bwriadu cyflwyno gwasanaeth newydd - Gofal Tŷ – yn ystod Mai 2009. Mae manylion am y gwasanaeth ar dudalen 9.

Rydym yn ystyried newid ein trefniadau cytundebol gyda Celtic Developments, sy'n darparu'n gwasanaeth cynnal a chadw ymatebol yn y Drenewydd (edrychwch ar dudalen 7)

Allan o Oriau Gwaith – Atgyweirio Mewn Argyfwng

Fel rhan o adolygiad gwelliannau diweddar Newydd, cafodd y gwasanaeth allan o oriau swyddfa ei ddynodi ar gyfer ei wella. Roedd tenantiaid yn mynegi pryderon yn arbennig gyda defnyddio canolfan alw Casnewydd.

O ganlyniad i'r adborth a gawsom, rydym wedi bod yn trafod gyda'n contractwyr er mwyn galluogi tenantiaid i gysylltu'n uniongyrchol gyda'n contractwyr yn hytrach na hysbysu am atgyweirio mewn argyfwng i Ganolfan Alw Casnewydd a fyddai wedyn yn tynnu sylw'r contractwr priodol. Ar ôl cwblhau'r trafodaethau gyda'r contractwyr rydym yn falch o allu cadarnhau fod holl drigolion y Drenewydd, o 1 Ebrill 2009 ymlaen, yn gallu cysylltu gyda Celtic Developments Cyf yn uniongyrchol, ac o 1 Mai 2009 bydd yr holl breswylwyr sy'n byw yn rhanbarth y Fro a'r Cymoedd yn gallu cysylltu gydag R&M Williams yn uniongyrchol hefyd.

O 8fed Mai 2009 , dylai'r tenantiaid i gyd ffonio'r llinell atgyweirio cynnal a chadw 0845 603 7696 ar gyfer atgyweirio mewn argyfwng allan o oriau swyddfa. Bydd y rhif hwn wedyn yn rhoi'r dewis i chi gael eich trosglwyddo i'r contractwr allan o oriau priodol yn eich ardal.

Cynnal a Chadw Ymatebol yn y Drenewydd

Mae Newydd yn paratoi i newid y ffordd y mae'n gweithio gyda Celtic Development Cyf sy'n darparu gwasanaeth atgyweirio ymatebol yn y Drenewydd. Byddwn yn symud yn ystod y gwanwyn oddi wrth 'gytundeb llyfr agored' tuag at gytundeb rhestr graddfeydd. Bydd hyn yn cyfateb hefyd i'n cytundeb sydd gennym gyda R&M Williams sy'n darparu gwasanaethau cynnal a chadw ymatebol i Newydd yn y Fro a'r Cymoedd.

Newid i Drefniadau Gwasanaethu Nwy a Gwresogi

Yn ystod rhan olaf 2008 a dechrau 2009, roedd Newydd yn cael anhawster gyda'i gontractwr gwasanaethu nwy yn y Drenewydd. Gofynnodd Newydd am brisiau gan gontractwyr eraill am ddarparu'r gwasanaeth hwn ac erbyn hyn rydym wedi mynd i gytundeb gyda Wil Mor Wil Cyf. Daeth y cytundeb gyda Wil Mor Wil Cyf i rym ar 1 Ebrill 2009, ac mae i gael ei adolygu ar ôl cyfnod o dri mis. Mae hynny er mwyn sicrhau fod safon uchel o wasanaeth yn cael ei ddarparu gan Wil Mor Wil Cyf i breswylwyr ar ran Newydd. Rydym yn awyddus i dderbyn adborth gan ein tenantiaid yn y Drenewydd ynglŷn â pherfformiad y cwmni.

Yn ogystal â hyn, rydym hefyd nawr wedi trefnu i Celtic Development Cyf wneud gwaith atgyweirio 'o ddydd i ddydd' i gartrefi Newydd yn y Drenewydd.

Archwilio Stadau

Yn dilyn cyhoeddi Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid Newydd yn ddiweddar, rydym nawr wedi cynhyrchu trefn archwilio fel y bydd preswylwyr yn gwybod ymlaen llaw pan fydd syrfewyr o adran Cynnal a Chadw Newydd yn cynnal archwiliadau ar stadau. Edrychwch ar y Daflen Archwilio Stadau sy'n cael ei chynnwys gyda'r rhifyn hwn o In View, sy'n rhestru stadau ynghyd â'r syrfewyr sy'n archwilio a dyddiad yr archwiliad.

2009-2010 Rhaglen Gynnal a Chadw Cylchol wedi'i Chynllunio

Mae adran cynnal a chadw Newydd yn aml yn cael ei holi ynglŷn â phryd neu ymhle yr ydym yn bwriadu gwneud y gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio. Mewn ymateb i'r cais hwn am wybodaeth, edrychwch ar y rhaglen gynnal a chadw Cylchol Wedi'i Chynllunio sy'n cael ei chynnwys gyda'r rhifyn hwn o In View.

Bwriad Newydd yw cadw at y rhaglen hon, ond fe all fod amgylchiadau'n codi lle bydd pethau'n newid am nifer o resymau. Os bydd y rhaglen yn newid yn ystod y flwyddyn, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi ymlaen llaw am y newidiadau fydd yn cael eu gwneud, pam fod rhaid newid pethau, a phryd y bydd y gwaith lle bu'r oedi yn cael ei wneud.

Er mai dim ond nodi'r eiddo lle mae gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio i ddigwydd eleni y mae'r rhaglen hon, rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori gyda'n tenantiaid i gyd yn ddiweddarach eleni am raglen 5 mlynedd Newydd ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio yn y dyfodol.

Cynnal a Chadw yn Croesawu Dau Aelod Newydd i'r Tîm

Mae tîm cynnal a chadw Newydd wedi recriwtio dau aelod newydd o'r staff ers rhifyn y Gaeaf o In View. Mae'r penodiadau hyn yn ymwneud â swyddi Syrfëwr Cynnal a Chadw Ymatebol a Chymhorthydd Cynnal a Chadw.

Ymunodd Mr Derrick Evans a'r tîm cynnal a chadw yn ystod Mawrth 2009 ac mae wedi cael ei recriwtio fel y Syrfëwr Cynnal a Chadw Ymatebol ar gyfer y Fro. Mae Derrick wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn y sector adeiladu tai newydd ac yn brofiadol iawn o ran darganfod gwendidau mewn adeiladau. Mae Derrick yn cymryd lle Kerry Baul a adawodd Newydd yn ddiweddar.

Mae Mrs Alison Davidson hefyd wedi cael ei recriwtio fel Cymhorthydd Cynnal a Chadw yn ystod Mawrth 2009 ac mae ganddi gyfoeth o brofiad mewn gweinyddu a gwasanaeth cwsmeriaid. Ymunodd Alison a'r tîm ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn gweithio i Nwy Prydain ac mae hi'n cymryd lle Donna Exton.

Llinell Atgyweirio Cynnal a Chadw – System Rheoli Galwadau

Yn ystod 2008 mae Newydd wedi bod yn edrych ar ffyrdd o wella'u Llinell Atgyweirio Cynnal a Chadw, gan mai dyma ar hyn o bryd yw'r dull y mae'r rhan fwyaf ohonoch yn ei ddefnyddio i'n hysbysu am waith atgyweirio. Rydym wedi bod yn ymwybodol fod yna beth anfodlonrwydd gyda'r Llinell Atgyweirio Cynnal a Chadw a bod rhai ohonoch yn ei chael hi'n anodd dod drwodd. Roedd hyn fel arfer oherwydd y ffaith bod ein Cymhorthwyr Cynnal a Chadw i gyd yn brysur ar y ffôn yn delio a cheisiadau am waith cynnal a chadw!

Er mwyn gwella'r Llinell Atgyweirio Cynnal a Chadw rydym wedi cyflwyno'n ddiweddar system reoli galwadau sy'n gweithredu fel y system ciwio galwadau y byddwch yn dod ar ei thraws wrth ffonio banc neu gwmni yswiriant, er enghraifft. Pan fydd nifer uchel o alwadau yn cyrraedd y Llinell Atgyweirio Cynnal a Chadw, yn lle cael y sŵn sy'n dweud fod y ffôn yn brysur, neu glywed y ffôn yn canu'n ddi-baid, mae llais awtomataidd yn cofrestru'ch galwad a byddwch yn cael eich rhoi mewn ciw. Bydd eich galwad yn cael ei hateb gan un o'r Cymhorthwyr Cynnal a Chadw cyn gynted â bo modd.

Os ydych chi wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn yn ddiweddar, gobeithiwn eich bod wedi gweld fod hyn yn help. Os hoffech awgrymu sut y gallwn ni ei wella, cofiwch roi gwybod i ni.

Galwad Tai – Hysbysu am Atgyweirio trwy'r Rhyngrwyd

Galwad Tai yw'r gwasanaeth y mae Newydd yn ei ddarparu sy'n eich galluogi i roi gwybod am atgyweirio drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd. Fe gyflwynodd Newydd Galwad Tai yn 2007, ond hyd yma does dim llawer ohonoch chi wedi ei ddefnyddio i hysbysu am waith atgyweirio. Byddem yn hoffi annog cynifer ag sy'n bosib ohonoch i ddefnyddio'r dull hwn o hysbysu am atgyweirio gan y bydd hynny'n helpu i leihau nifer y galwadau ffôn sy'n cael eu derbyn trwy'r llinell atgyweirio cynnal a chadw. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r staff cynnal a chadw i dreulio mwy o amser yn monitro'n contractwyr a sicrhau eu bod nhw'n darparu gwasanaeth da ar eich cyfer.

Gallwch gyrchu Galwad Tai trwy wefan Newydd **(www.newydd.co.uk).** Mae'n hawdd ei ddefnyddio, ac yn defnyddio lluniau a diagramau i'ch helpu i adnabod yr atgyweiriad sydd ei angen ac wedyn yn eich galluogi i anfon y cais am atgyweirio trwy'r rhyngrwyd. Os ydych chi wedi defnyddio Galwad Tai o'r blaen, neu'n ddefnyddiwr tro cyntaf, byddem yn croesawu'ch adborth ac unrhyw argymhellion yr ydych chi'n teimlo a fyddai o werth.

Cofiwch na ddylai Galwad Tai gael ei ddefnyddio i hysbysu am atgyweirio mewn argyfwng.

Gofal Tai – Llawlyfr Atgyweirio i Denantiaid ar y Rhyngrwyd

Mae Gofal Tai yn debyg i Galwad Tai. Mae'r adran Cynnal a Chadw yn bwriadu cyflwyno'r gwasanaeth newydd hwn yn ystod Mai 2009. Os byddech chi'n dymuno dadansoddi'r atgyweirio sy'n angenrheidiol yn eich cartref, bydd modd i chi logio i wefan Newydd ac edrych ar y Llawlyfr Atgyweirio i Denantiaid. Unwaith y bydd gennych chi syniad clir o beth yw'r broblem, gallwch wedyn hysbysu adran cynnal a chadw Newydd ar y Llinell Atgyweirio Cynnal a Chadw sef **0845 6031696.**

Byddwn hefyd yn cynnwys yn Llawlyfr Atgyweirio yn y Llawlyfr Tenantiaid diwygiedig, a fydd yn cael ei anfon allan yn ystod yr haf.

Raffl Bodlonrwydd Tenantiaid

Diolch o galon unwaith eto i bob un o'r tenantiaid hynny sydd wedi llenwi'r holiadur bodlonrwydd atgyweirio a'i anfon yn ôl. Rydyn ni'n hynod falch o dderbyn y wybodaeth hon sy'n ein helpu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd gennych chi am y ffordd y mae gwaith atgyweirio wedi cael ei wneud.

Fe hoffen ni atgoffa'n tenantiaid i gyd fod raffl yn cael ei chynnal bob tri mis ar gyfer pob holiadur sydd wedi ei lenwi a'i anfon yn ôl, gyda'r enillydd yn derbyn siec am £150. Yr enillydd lwcus am y cyfnod tri mis Hydref – Rhagfyr 2008 oedd Mr K McPhail o Wordsworth Gardens. Bydd y raffl am y cyfnod tri mis Ionawr – Mawrth 2009 yn cael ei thynnu yng nghanol Mai 2009 a bydd yr enillydd yn cael ei hysbysu trwy'r post. Cofiwch ddal i anfon y ffurflenni bodlonrwydd atgyweirio yn ôl, gan fod rhaid i chi eu hanfon i mewn er mwyn cal cyfle i ennill.

Asbestos

Yn y gorffennol mae Newydd wedi penodi ymgynghorwyr lleol, City Environmental Services, i archwilio ein cartrefi er mwyn darganfod lleoliad unrhyw asbestos. Rydym wedi cwblhau'r arolygon hyn ym mhob un o'n hardaloedd cymunol a rhannau allanol fflatiau ac yn parhau i wneud hynny gyda'n tai a fflatiau cyn y gwaith cynnal a chadw yr ydyn ni'n bwriadu ei wneud.

Mae'r arolygon asbestos a wnaeth Newydd hyd yma yn dangos fod yna lefelau isel iawn o asbestos yn ein cartrefi, a'r rheini i'w cael yn artecs y nenfwd. Hoffem gymryd y cyfle hwn i atgoffa'n tenantiaid i gyd **NAD**



yw 'r lefel o asbestos sy'n bresennol yn niweidiol, ond y gallai gwaith sy'n golygu dod i gysylltiad ag asbestos gael canlyniadau difrifol o ran iechyd os na fyddwch yn dilyn yr arferion gwaith priodol. Mae artecs nenfwd yn ddefnydd 'hunan orffenedig' na ddylai fod angen ei addurno. **Hoffem bwysleisio NAD yw lefelau asbestos yn eiddo Newydd yn destun pryder, ond byddem yn eich annog i gymryd y gofal angenrheidiol os ydych chi'n bwriadu drilio neu sandio nenfwd am unrhyw reswm.** Os ydych chi angen unrhyw wybodaeth am risg ac arferion gorau wrth weithio mewn mannau a allai gynnwys asbestos, cysylltwch â'r tîm cynnal a chadw a fydd yn falch o'ch helpu gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol.

eich cyfle i gymryd rhan

Y llynedd bu llawer ohonoch yn ein helpu trwy lenwi arolwg Newydd 90 am roi cyfle i denantiaid gael eu cynnwys yn rheolaeth Newydd. Dywedodd 90% ohonoch ei bod hi'n bwysig fod tenantiaid yn cymryd rhan yn rhedeg y Gymdeithas. Mae dod yn aelod cyfranddaliwr neu'n aelod o'r Bwrdd yn ddwy ffordd o gyflawni hyn.

Dod yn aelod cyfranddaliwr

Mae'n hawdd dod yn aelod cyfranddaliwr. Dywedwch wrthym eich bod eisiau bod yn aelod cyfranddaliwr a byddwn yn casglu rhywfaint o wybodaeth amdanoch ar gyfer ein cofnodion. Talwch £1 a dyna ni. Bydd eich cais yn cael ei anfon at y Bwrdd i'w gymeradwyo, ac os bydd hynny'n digwydd bydd tystysgrif cyfranddaliad yn cael ei rhoi i chi. Mae gan Newydd bolisi aelodau cyfrannol agored ac mae'n croesawu ceisiadau gan denantiaid.

Beth mae aelodau cyfranddeiliaid yn ei wneud?

Aelodau cyfranddeiliaid, mewn gwirionedd, yw perchnogion y Gymdeithas. Mae hynny'n golygu na ellir gwneud unrhyw benderfyniadau pwysig ynglŷn â dyfodol y Gymdeithas heb i fwyafrif yr aelodau cyfranddeiliaid gytuno â'r newidiadau. Gall aelodaeth gyfranddaliwr roi sicrwydd i denantiaid na fydd Newydd yn gwneud unrhyw newidiadau o bwys a fydd yn cael effaith negyddol ar denantiaid. Ar hyn o bryd mae 77% o gyfranddaliadau Newydd yn eiddo i denantiaid.

Y math o benderfyniadau sydd angen cymeradwyaeth aelodau cyfranddeiliaid yw'r rhai hynny sy'n golygu newid y rheolau, etholiadau i'r Bwrdd ac unrhyw benderfyniad i uno neu ddiddymu Newydd. Dim ond mewn cyfarfodydd lle mae aelodau cyfranddeiliaid wedi cael gwahoddiad y mae modd gwneud y penderfyniadau hynny.

Gan fod Newydd yn sefydliad 'dielw', mae cyfranddaliadau yn cael eu cyfyngu i un i bob person a fyddan nhw ddim yn cynyddu yn eu gwerth. Does dim taliadau bonws, felly fyddan nhw ddim, gwaetha'r modd, yn eich gwneud chi'n gyfoethog!

Os ydych chi eisiau rhannu ym mherchnogaeth Newydd, yna gofynnwch i unrhyw aelod o'r staff ac fe fyddan nhw'n falch o ddelio gyda'ch cais.

Dod yn aelod Bwrdd

Yn arolwg Newydd 90 dywedodd mwy na 92% eu bod nhw'n meddwl y dylai tenantiaid fod ar y Bwrdd.

Mae Newydd wedi neilltuo hyd at bedwar lle ar y Bwrdd i denantiaid sydd wedi eu hethol. Mae pwy fydd yn llenwi'r llefydd hynny yn cael ei benderfynu trwy bleidlais flynyddol.

Mae'r rheolau llawn a ffurflenni enwebu wedi eu hanfon atoch gyda'r rhifyn hwn o In View. Byddwn yn penodi'r Electoral Reform Services i redeg y bleidlais ar ein rhan er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn deg ac yn annibynnol. Bydd y bleidlais yn cael ei rhedeg fel a ganlyn:

- Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno hyd at 100 gair yn rhoi eu henw llawn, cyfeiriad a swydd, a'r rhesymau pam eu bod yn addas i fod yn aelod denant ar y bwrdd.
- Bydd modd i denantiaid fwrw pleidlais (nid yn unrhyw drefn blaenoriaeth) yn cyfateb i nifer y llefydd gwag sydd i'w llenwi. Rhaid i bleidleisiau gael eu bwrw ar y slip pleidleisio.
- Bydd yr ymgeiswyr gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r llefydd gwag. Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benderfynu trwy fwrw coelbren.
- Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dod yn aelodau o'r Bwrdd yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol neu gyfarfod nesaf y Bwrdd.
- Bydd gofyn i bob tenant sy'n cael eu hethol yn aelodau o'r Bwrdd dderbyn yr oblygiadau y cytunodd y Bwrdd arnyn nhw ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd.
- Bydd canlyniadau'r etholiad yn cael eu cyhoeddi i'r holl denantiaid. Gall llefydd gwag sy'n codi rhwng etholiadau gael eu llenwi neu eu gadael yn wag yn ôl penderfyniad y Bwrdd.
- Bob blwyddyn bydd hanner y tenantiaid a etholwyd yn aelodau yn ildio'u seddi gyda'r hawl i ymgeisio i gael eu hail ethol os ydyn nhw'n dymuno.

Yn arolwg Newydd 90 dywedodd bron hanner y tenantiaid bod ganddyn nhw ddiddordeb mewn sefyll yn yr etholiad ond dywedodd amryw y buasen nhw'n hoffi gwybod mwy am yr hyn mae'n ei olygu cyn penderfynu. Rydym yn cysylltu gyda phawb a ddywedodd bod ganddyn nhw ddiddordeb er mwyn darparu mwy o wybodaeth ar eu cyfer ac i'w helpu i benderfynu a fyddan nhw'n sefyll etholiad.

Os hoffech chi wybod mwy cysylltwch gyda Paul Roberts, Prif Weithredwr ar 029 2062 9364 neu unrhyw aelod o'r staff. Byddwn wedyn yn dod i gysylltiad.

Newydd yn ôl ar y ffordd

Yn dilyn llwyddiant ein sioeau ffyrdd y llynedd, bydd Newydd unwaith eto'n llogi cerbyd cartref ac yn ymweld â stadau yn y Fro a'r Cymoedd yr haf hwn!

Byddwn yn gofyn i denantiaid lenwi arolwg byr er mwyn cael gwybod eu barn am y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn gennym ni. Unwaith eto bydd 10 cyfle i ennill £100 – felly edrychwch ar yr amserlen isod i weld pryd y byddwn ni'n ymweld â'ch stad chi!

(Sylwch fod digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal mewn Cynlluniau Tai Gwarchod ac yn y Drenewydd – bydd tenantiaid yn yr ardaloedd hy n yn cael mwy o fanylion gennym maes o law).

Dyddiad	Bore	Prynhawn
Llun 22 Mehefin	Stryd Thompson, Y Barri	Stryd Thomson, Y Barri
Mawrth 23 Mehefin	Ffordd Elin, Y Barri	Maes yr Ysgol a Heritage Drive, Y Barri
Mercher 24 Mehefin	Clos Columbus a Clos Magellan, Y Barri	Clos Llawhaden, Y Barri
Iau 25 Mehefin	Penarth	Penarth
Gwener 26 Mehefin	Trelái	Tongwynlais
Llun 29 Mehefin	Rhydyfelin	Rhydyfelin
Mawrth 30 Mehefin	Rhydyfelin	Aberaman
Mercher 1 Gorffennaf	Glyn Nedd	
Iau 2 Gorffennaf	Rhiw Ceris	Llys Celyn, Ton-teg
Gwener 3 Gorffennaf	Gilfach Goch	Newpark, Tanysguboriau

Cei Jackson, Glannau'r Barri
(llun artist)

datblygiadau newydd

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r Gymdeithas gyda nifer o brosiectau tai newydd ac arloesol yn cael eu datblygu yn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae'r gwaith ar droed ar bedwar datblygiad gyda dau arall i fod i ddechrau yn yr ychydig fisoedd nesaf. Mae'r Gymdeithas yn adeiladu ar gyfer y dyfodol ac yn ymdrechu i sicrhau y byddwn yn darparu'r safonau uchaf o ran cynaliadwyedd, adeiladu a dylunio.

Isod mae'r newyddion diweddaraf am ein rhaglen ddatblygu. Os hoffech chi gael unrhyw wybodaeth ychwanegol am y cynlluniau dan sylw, cysylltwch â Rhianydd Jenkins ar Rhianydd.Jenkins@newydd.co.uk.

Fern Close, Rhydyfelin, Rhondda Cynon Taf

Rydym yn falch o allu cyhoeddi fod y datblygiad hwn o ddau fyngalo wedi eu haddasu wedi ei gwblhau ym Medi 2008. Cawsant eu cynllunio'n arbennig ar gyfer teuluoedd lleol sydd ag aelod anabl. Roedd y byngalos helaeth hyn yn rhoi digonedd o le a hygyrchedd i'r teulu.

Wedi eu cynllunio gan Benseiri Pentan a'u hadeiladu gan M&J Cosgrave, cafodd y cynllun yr ail wobr yng nghategori Prosiectau Cynaliadwy yng Ngwobrau Rheoli Adeiladu Rhondda Cynon Taf yn 2009.

Fern Close, Rhydyfelin (wedi ei gwblhau)

Poets Close, Rhydyfelin, Rhondda Cynon Taf

Mae'r gwaith ar 15 o gartrefi teuluol, sydd bellach yn cynnwys un byngalo wedi ei addasu ar gyfer yr anabl, ar y ffordd i gael ei gwblhau erbyn y dyddiad targed yn Awst. Cawsom wybod yn ddiweddar gan Gyngor Rhodda Cynon Taf mai Byron Close yw enw'r datblygiad.

Ysgol Trefforest, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

Mae'r 23 o gartrefi newydd i fod i gael eu cwblhau ym Medi. Fel yn achos Poets Close, mae'r safle wedi cael ei henwi gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yn Ruler Way - gan gadw'r cysylltiad gyda'r ysgol! Mae'r Gymdeithas wedi sefydlu cysylltiadau agos gyda'r gymuned a'r ysgol leol, Ysgol Gynradd Parc Lewis, lle mae cyn ddisgyblion Ysgol Trefforest yn cael eu dysgu erbyn hyn. Mae manylion y gystadleuaeth ddylunio sy'n cael ei rhedeg gydag Ysgol Gynradd Parc Lewis yn cael eu cynnwys gyda'r rhifyn hwn.

Stryd Vere, Y Barri, Bro Morgannwg

Dechreuodd y gwaith ar y safle hwn yn Ionawr 2009 ar gyfer darparu saith o fflatiau. Mae'r gwaith i fod i orffen yn Hydref 2009.

Main Street, Y Barri (Cam 1), Bro Morgannwg

Dechreuodd y gwaith yn Rhagfyr 2008 ar ddarparu 20 o gartrefi newydd yn Main Street. Mae'r datblygiad yn cynnwys 14 o fflatiau dau wely, 1 fflat un gwely a 5 tŷ tri gwely.

Cei Jackson, Glannau'r Barri

Mae'r gwaith ar y cynllun preswyl mawreddog hwn gyda 70 o gartrefi newydd i fod i ddechrau'n fuan. Bydd Mi Space Contractors, sydd hefyd yn brif gontractwyr ar ein datblygiad yn Main Street, yn gyfrifol am y prosiect cyffrous hwn.

Poets Close, Rhydyfelin

Poets Close, Rhydyfelin

Poets Close, Rhydyfelin

Main Street, Y Barri

Ysgol Trefforest, Pontypridd

Stryd Vere, Y Barri

Heol Court, Y Barri (cyn i'r gwaith ddechrau)

Rhodfa Elfed, Penarth (llun artist)

Heol Court, Y Barri, Bro Morgannwg

Fel yn Cei Jackson, bydd y gwaith yn dechrau'n fuan ar ddatblygu 4 tŷ tref pedair ystafell wely ac 8 fflat dwy ystafell wely yn Court Road. Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys adnewyddu hen eglwys i ddarparu'r 8 o fflatiau.

Rhodfa Elfed, Penarth, Bro Morgannwg

Mae'r Gymdeithas ar hyn o bryd wrthi'n gweithio ar gynllun cynaliadwyedd sylweddol ym Mhenarth. Bydd darparu 4 tŷ ar safle hen Eglwys Sant Luc yn sicrhau lefelau uchel o gynllunio cynaliadwy ac yn ffurfio prosiect peilot ar gynaliadwyedd i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Bro Morgannwg. Mae'r Gymdeithas ar hyn o bryd yn gweithio ar y cynllun a bydd y cyfnod cynllunio yn dechrau'n fuan - gwyliwch y tudalennau hyn!

cystadleuaeth gardd orau 2009

Yn dilyn llwyddiant aruthrol y gystadleuaeth arddio y llynedd, byddwn yn cynnal cystadleuaeth eto i ddarganfod gerddi gorau Newydd yn ystod yr haf hwn. Bydd y categorïau fel a ganlyn, a bydd gwobrau i'r rhai sy'n dod yn gyntaf:

- Yr ardd a gadwyd orau
- Yr ardd gymunol a gadwyd orau
- Y cynllun tai gwarchod a gadwyd orau
- Y fasged grog neu flwch ffenest gorau

Os hoffech chi gymryd rhan yn y gystadleuaeth, neu enwebu cymydog, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol i gael ffurflen ymgeisio. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio fydd Mai 31. Bydd lluniau o'r gerddi'n cael eu tynnu yn ystod Gorffennaf yn barod ar gyfer y beirniaid a bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn Awst. Pob hwyl i bawb sy'n rhoi cynnig arni!

Llun gan
Linda Chamberlain

taith tenantiaid i trafford hall

Yn Chwefror aeth Cath Kinson, Linda Chamberlain, Sue Jipper ac Ellen Morgan, sydd i gyd yn aelodau o Is-grŵp Cydraddoldeb ac Anabledd Newydd (NEADS) i Trafford Hall yng Nghaer i dderbyn hyfforddiant ar Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymru a darganfod mwy am ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfle cyfartal. Roedden nhw i gyd yn awyddus i ddatblygu eu meddwl eu hunain am gydraddoldeb ac amrywiaeth ac archwilio sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu o fewn eu gwaith yng ngrŵp NEADS ac o fewn eu cymuned drwyddi draw. Cytunodd Linda Chamberlain, yn garedig iawn, i roi adborth am eu harhosiad:

"Pan gyrhaeddon ni Tafford Hall, fe wnaethon nhw inni deimlo'n gartrefol iawn. Yn gyntaf gan Jane, derbynnydd y diwrnod, wedyn gan bob un o'r bobl eraill sy'n rhedeg y plasty Sioraidd Rhestredig Gradd 2.

Ar ôl cofrestru, fe ddangoswyd fe'n harweiniwyd i'n stafelloedd, sef cabannau yn edrych dros yr ardd suddedig a'u gardd lysiau nhw'u hunain. Mae popeth yn Trafford Hall yn ecogyfeillgar, roedd hyd yn oed y cabannau lle'r oedden ni'n cysgu wedi eu toi gyda thywyrch a dorrwyd o'r tir lle mae'r cabannau wedi eu hadeiladu. Does dim byd yn cael ei wastraffu. Maen nhw'n defnyddio panelau haul a bwyler biomas ar gyfer cynhesu a dŵr twym. Mae hyd yn oed y ddwy gath sy'n byw yno yn llysieuwyr ac maen nhw'n cadw rheolaeth ar unrhyw blâu a allai wneud difrod i'r cnydau sy'n cael eu tyfu yn y gerddi.

Fe wnaethon ni fwynhau'n harhosiad yn Trafford Hall yn fawr iawn. Roedd y cwrs yn llawn gwybodaeth a bydd yn ein helpu gyda'r gwaith yr ydyn ni'n ei wneud gyda Newydd. Byddwn i'n ei gymeradwyo i unrhyw un sy'n meddwl mynd yno am ba reswm bynnag. Gallwch aros yno am seibiant byr yn ogystal â defnyddio'r Neuadd ac mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau hyfforddi yn ddi-dâl.

Mae Trafford Hall yn ganolfan adnoddau ac os hoffech chi ddod yn un o gyfeillion Trafford Hall, mae yna groeso bob amser i roddion ac mae'r bwyd yn FENDIGEDIG!"

Siaradwch gyda'ch Swyddog Cynnwys Cymunedol os hoffech chi ymuno â NEADS gan fod yna groeso bob amser i aelodau newydd.

datblygu yn y gymuned

Mae tîm datblygu Newydd wedi bod yn gweithio'n agos gyda phlant ysgol lleol yn Ysgol Gynradd Parc Lewis, Trefforest, i greu dyluniad ar gyfer plac a fydd yn cael ei ymgorffori o fewn datblygiad gan Newydd o 23 o gartrefi newydd yn Princess Street, Trefforest.

Prynodd Newydd safle hen Ysgol Gynradd Trefforest gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yn 2007, ac maen nhw'n awyddus i sicrhau fod yr hen ysgol yn cael ei choffau yn y datblygiad newydd. Trefnwyd cystadleuaeth arlunio gyda'r ysgol a gofynnwyd i'r plant, rhai ohonyn nhw'n gyn ddisgyblion yn hen Ysgol Gynradd Trefforest, dynnu llun ar y thema 'y maes chwarae'. Bydd y darlun buddugol nawr yn cael ei ddefnyddio i greu plac dur gwrthstaen a fydd yn cael ei osod ym mynedfa'r datblygiad cyflawn i goffau'r ffaith fod y safle unwaith yn ysgol.

Dywedodd Simon Morris, Cyfarwyddwr Eiddo: *"Mae prynu safle hen Ysgol Gynradd Trefforest wedi rhoi cyfle gwych i ni gynnwys y gymuned leol yn ein datblygiad newydd. Roedd yn edrych yn beth addas i ni, gan ein bod ni'n datblygu safle hen ysgol, i gynnwys plant o'r ysgol gynradd leol i'n helpu i goffau a chofnodi hanes y safle."*

Dywedodd Mrs Williams, prifathrawes Ysgol Gynradd

Chwith i'r Dde Rhes Gefn – Rhianydd Jenkins, Cymhorthydd Datblygu; Simon Morris, Cyfarwyddwr Eiddo; Mrs Williams, Prifathrawes. Rhes Flaen – y disgyblion buddugol

Parc Lewis: ""*Rwyf wrth fy modd bod yr ysgol wedi cael cymryd rhan yn y gystadleuaeth, a bod y plant wedi mwynhau cymryd rhan yn fawr, gan fod hon yn gystadleuaeth arbennig iawn oedd yn cynnwys y gymuned ac, yn arbennig, cyn ddisgyblion Ysgol Gynradd Trefforest."*

Bydd Newydd yn parhau i roi rhan i'r ysgol wrth i'r tai newydd gael eu codi trwy drefnu ymweliadau i'r plant yn y gwanwyn a'r haf. Mae'r datblygiad newydd i fod i gael ei gwblhau yn hydref 2009.

Ydych chi'n chwilio am gam i mewn i addysg a thai?

Mae Newydd yn cyflwyno rhaglen newydd i ddarparu nawdd blynyddol i denant ar gyfer mynychu addysg uwch. Bydd cefnogaeth ariannol yn cael ei ddarparu trwy lwfans blynyddol tuag at gostau teithio a llyfrau. Pan fydd ar gael, bydd profiad gwaith gyda thâl yn cael ei ddarparu yn ystod gwyliau'r Pasg a'r haf.

Y meysydd pwnc y byddwn ni'n ystyried eu cefnogi yw astudiaethau mewn tai, cynnwys cymunedol, datblygu, a chynnal a chadw.

I gael mwy o fanylion ac i gofrestru'ch diddordeb yn y rhaglen cysylltwch â Keiron Montague ar 01443 408080 neu keiron.montague.co.uk ddim hwyrach na 31 Mai 2009.

Newydd yn creu sblash!

Dros y 9 mis diwethaf mae tîm Cynnwys Cymunedol Newydd wedi bod yn gweithio gyda grwpiau ieuenctid o amgylch ein stoc tai yn ardaloedd y Fro a'r Cymoedd. Ein nod yw adeiladu cysylltiadau gyda grwpiau sy'n bodoli eisoes a chreu proffil cadarnhaol i'r Gymdeithas ymysg y bobl ifanc ar ein stadau. Mae Newydd wedi dynodi pobl ifanc fel grŵp 'anodd eu cyrraedd' ac yn bwriadu cynnal prosiectau a digwyddiadau gyda nhw i adeiladu eu hyder yn y Gymdeithas, gwella'r mynediad i wasanaethau ar gyfer pobl ifanc, a hefyd i greu cysylltiadau cryfach rhwng y Gymdeithas a'r sefydliadau ieuenctid sy'n gweithio ar ein stadau.

Buom yn ymgynghori trwy gyfrwng arolwg ieuenctid a thrafodaeth gyffredinol a gynhaliwyd gyda'r grwpiau. Bydd y wybodaeth a dderbyniwyd trwy'r arolygon yn cael ei ddefnyddio'n awr i greu rhyw fath o gynllun gweithredu i helpu'r gymdeithas i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r grwp anodd ei gyrraedd hwn. Roedd yna bedair gwobr £50 am gwblhau'r arolwg a thynnwyd enwau'r enillwyr ar hap gan gadeirydd Bwrdd Newydd ddydd Mercher 25 Mawrth. Yr enillwyr oedd:

Scott Philpott – Aberaman
Ceri Wheatleans – Rhydyfelin
Ceri Gatland – Rhydyfelin
Aaron Harris – Rhydyfelin

Valleys Kids, Prosiect Rhydyfelin, oedd ein man cychwyn. Rydyn ni wedi treulio amser yn adeiladu partneriaeth gadarn gyda grŵp mawr o bobl ifanc sy'n mynychu sesiynau ieuenctid yn gyson yng Nghanolfan Ilan, Rhydyfelin. Mae'r sesiynau'n cynnwys mwy na 70 o bobl ifanc ar unrhyw noson, a chyda 90 y cant o'r ieuenctid hynny yn byw ar stoc tai Newydd yng Nglyn-taf, mae hon yn gynulleidfa darged berffaith i sbarduno'n gwaith gyda phobl ifanc fel grwp anodd ei gyrraedd.

Ddydd Sadwrn 7 Mawrth fe noddodd Newydd ddigwyddiad ymgynghori seiliedig ar adeiladu tîm a sgiliau arwain gyda 10 o bobl ifanc o Rydyfelin. Fe deithion ni i Barc Margam ger Port Talbot ar gyfer sesiwn adeiladu rafft. Roedd hi'n oer iawn ac yn wlyb ond roedd hyn yn llwyddiant mawr a chafodd pawb ddigonedd o hwyl.

Gobeithio mai'r cyntaf fydd hwn o nifer o brosiectau ymgynghori a fydd yn cael eu cynnal gyda phobl ifanc ledled ein stoc, a'i fod yn ddechrau ar bartneriaeth gynhyrchiol iawn gyda Valleys Kids a phobl Rhydyfelin.

ymddygiad gwrthgymdeithasol

Newydd yn lansio'i threfn newydd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Bu Newydd yn gweithio gyda Housemark dros y 12 mis diwethaf i ddatblygu polisi a gweithdrefn newydd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bu staff yn cyfarfod nifer o denantiaid y llynedd er mwyn darganfod beth oeddech chi'n ei feddwl am y ffordd yr ydyn ni'n mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a beth allen ni ei wneud i'w gwella.

Beth ddywedoch chi wrthym:

- Dyw polisïau ddim yn ddigon cadarn
- Mae angen i gwynion gael eu cofnodi mewn ffordd well
- Gall amserlenni fod yn hirfaith
- Dyw llythyrau ddim yn gweithio
- Ddylai'r llysoedd ddim bod yn unig ddewis
- Fe ddylen ni weithio'n fwy effeithiol gydag asiantaethau eraill fel yr heddlu
- Byddai tenantiaid yn hoffi cael mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd am eu cwynion
- Byddai tenantiaid yn hoffi cael cefnogaeth ddifwlch a diweddaru rheolaidd gan eu Swyddog Tai.

Beth ydyn ni wedi ei wneud i mewn ymateb i hyn?

- Os byddwch chi'n gwneud cwyn bydd y manylion yn cael eu cofnodi a byddwch yn cael rhif cyfeirnod cwyn unigryw
- Byddwn yn ymateb i bob adroddiad am niwsans o fewn 5 diwrnod gwaith (trais yn y cartref, aflonyddu, neu aflonyddu hiliol, o fewn un diwrnod gwaith)
- Bydd eich swyddog tai yn trafod y gŵyn gyda chi ac yn eich cynghori pa ddewisiadau sydd yna i ni
- Gyda'ch caniatâd chi, fe fyddwn ni'n cyfweld y tramgwyddwyr honedig o fewn 10 diwrnod gwaith
- Byddwch yn cael cyswllt mynych a rheolaidd gyda'ch swyddog tai hyd nes y bydd y gŵyn wedi cael ei datrys
- Byddwn ni'n sicrhau fod asiantaethau sy'n bartneriaid i ni, fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion, yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd ynghylch unrhyw gwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Pan fydd eich cwyn wedi cau byddwn yn anfon holiadur bodlonrwydd atoch
- Byddwn yn monitro, yn rhoi adroddiad ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i bopeth sy'n cael ei wneud i ddatrys ymddygiad gwrthgymdeithasol

I gael mwy o wybodaeth am ein polisïau a'n gweithdrefnau cysylltwch â'ch Swyddog Tai.

cynilo ar gyfer y dyfodol

Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro yn cynnig cyfrif cronfa ymddiriedolaeth newydd i blant

Mae Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro yn awr yn cynnig cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Plant. Yn ogystal â chyfrifon oedolion a benthyciadau fforddiadwy, mae'r undeb credyd yn ddiweddar wedi ychwanegu cyfrif newydd ar gyfer rhieni i ddechrau cynilo ar gyfer eu plant.

Yn gyfrif arian parod diogel a di-risg, mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant yn ddi dreth ac yn agored i unrhyw blentyn a anwyd ar ôl 1 Medi 2002. Mae'r llywodraeth yn cyhoeddi taleb £250 ar enedigaeth pob plentyn i'w adneuo mewn cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant. Gall rhieni ychwanegu at y cyfrif hyd at uchafswm o £1200 bob blwyddyn. Dim ond y plentyn, pan fydd wedi cyrraedd 18 oed, fydd yn gallu tynnu arian allan o'r cyfrif.

Dywedodd Glenda Porter, rheolwr Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro: *"Os bydd rhieni'n agor cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant gyda'r undeb credyd ac yn ychwanegu ato'n rheolaidd, fe allen nhw helpu eu plentyn i brynu eu car cyntaf, talu ffioedd prifysgol neu roi ernes ar eu ty cyntaf."*

Mae'r raddfa llog bresennol yn un gystadleuol iawn sef 3.5% AER. Mae modd agor Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant gyda thaleb neu gallwch drosglwyddo arian i mewn o gyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant sy'n bodoli eisoes.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth neu agor cyfrif, ewch i'n gwefan www.cardiffcu.com, e-bost ccu@cardiffcu.com neu ffoniwch 029 2087 2373.

panel cymunedol

Bydd y Panel Cymunedol yn brysur ac yn ddiweddar fe sefydlodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych sut maen nhw wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf ac i argymell unrhyw newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwella'r ffordd y maen nhw'n eich cynrychioli chi fel tenantiaid.

Yr argymhellion a wnaed oedd:

- Peidio cael ond un Panel Cymuedol (roedd dau yn arfer bod, un yn y Fro a'r llall yn y Cymoedd)
- Agor yr aelodaeth fel y gall unrhyw un ddod draw – er bod llefydd yn gyfyngedig er mwyn cadw cyfarfodydd dan reolaeth (o'r blaen allech chi ddim mynychu cyfarfod os nad oeddech chi'n aelod o Grŵp Tenantiaid a Phreswylwyr neu'n aelod o is-grwpiau'r Panel).
- Darparu 'Cymorthfeydd Rheolwyr' ble gall ddod draw a siarad yn uniongyrchol gyda'r Pennaeth Tai a'r Pennaeth Eiddo (bydd mwy o wybodaeth ar hyn yn dilyn yn fuan)
- Cael grŵp ymgynghorol ar gartrefi gwarchod
- Gwneud y Panel Cymunedol yn fwy hygyrch trwy gael cyfeiriad rhadbost, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost a fydd yn arwain yn uniongyrchol at y Panel Cymunedol
- Newid y ffordd y mae newydd yn adrodd ar wybodaeth profiad fel ei fod yn berthnasol i'r Panel Cymunedol ac i'r holl denantiaid.

Os hoffech chi wybod mwy am y Panel Cymunedol, Cymorthfeydd Rheolwyr neu'r amryfal ffyrdd ble gallwch chi gymryd rhan ac sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y ffordd y mae Newydd yn darparu gwasanaethau, cysylltwch ag un o'r Swyddogion Tai:

Swyddfa'r Fro: 01446 701501
Swyddfa'r Cymoedd: 01443 408080
Swyddfa'r Drenewydd: 01686 621965

budd-daliadau tai

Os ydych chi'n hawlio Budd-dal tai, Budd-dal Treth Cyngor neu Brydau Ysgol am Ddim, a bod eich amgylchiadau yn newid, cofiwch ddweud yn syth wrth eich Adran Budd-dal Tai. Gall y newid olygu bod gennych chi hawl i gael mwy o fudd-dal. Os yw'n golygu'ch bod yn cael llai o fudd-dal, mae'n well cael gwybod hynny cyn gynted ag sy'n bosib – yn hytrach nag yn hwyrach pan allan nhw fod wedi talu gormod ichi a chithau'n gorfod talu'r gordaliad yn ôl.

Bydd angen i chi hefyd ddarparu gwybodaeth ddogfennol o unrhyw wybodaeth y byddwch yn dweud wrthyn nhw amdano. Dim ond dogfennau gwreiddiol fydd yn cael eu derbyn – fydd llungopïau ddim yn dderbyniol.

Cysylltu ag Adran Budd-dal Tai eich Cyngor

Rhondda Cynon Taf

Yn bersonol neu yn un o'n canolfannau one4all yn: Nhreorci, Pontypridd, Porth neu Aberdâr neu yn eich Swyddfa Tai leol.

Trwy ysgrifennu at yr Adran Budd-dal Tai, Tŷ Bronwydd, Porth, Rhondda CF39 9DL

Ffôn:
01443 681081

Bro Morgannwg

Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU
Ffôn:
01446 700111

Powys

Swyddfa Ardal y Drenewydd, Lôn Gefn' Y Drenewydd

Ffôn:
0845 6027030

Caerdydd

Tŷ Marland
Sgwâr Canolog
Caerdydd

Ffôn:
029 2087 2087

Castell-nedd Port Talbot

Y Ganolfan Ddinesig
Castell Nedd
SA11 3QZ

Ffôn:
01639 764755

cyllid i grwpiau tenantiaid

Bob blwyddyn, mae Cymdeithas Tai Newydd yn darparu cyllid i Grwpiau Tenantiaid a Phreswylwyr cydnabyddedig wrth ymwneud â phreswylwyr.

Grŵp	Cyllid a roddwyd
Maes Yr Eglwys	£4,100.00
Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Glyn-taf	£11,655.00
Rhiw Ceris	£1,750.00
Aberaman	£2,041.00
Alltwen	£2,430.00
Cwrt Philipa Freeth	£1,670.00
Cwrt Gwyn Jones	£1,700.00
Cwrt Ellis Fisher	£ 660.00
Cwrt Arthur Davis	£1,300.00
Stryd Thomson	£1,800.00
CYFANSWM	**£29,106.00**

Cysylltwch â'ch Grŵp Tenantiaid a Phreswylwyr lleol er mwyn gweld pa gynlluniau sydd ganddyn nhw i wario'r arian. Neu os ydych chi'n dymuno sefydlu'ch grŵp eich hun ac eisiau mwy o wybodaeth am gyllid neu Grwpiau Tenantiaid a Phreswylwyr, cysylltwch ag un o'r swyddfeydd tai:

Swyddfa'r Fro:
01446 701501

Swyddfa'r Cymoedd:
01443 408080

Swyddfa'r Drenewydd:
01686 621965

yswiriant

Oes gennych chi yswiriant cynnwys tŷ digonol?

Beth sy'n digwydd os bydd llifogydd yn eich tŷ, neu os bydd difrod yn digwydd i gynnwys eich cartref?

Mae Newydd yn yswirio'r adeilad, ond nid yw'n yswirio'r cynnwys.

Mae Newydd wedi ymuno gyda Jardine Lloyd Thompson (JLT) trwy Cartrefii Cymunedol i ddarparu yswiriant cynnwys tŷ ar gost isel. Edrychwch ar yr hysbyseb ar dudalen 23 a chysylltwch â JLT yn uniongyrchol os oes gennych chi ddiddordeb yn eu cynnig.

marchnad arian

marchnad arian Newydd a'r ccb

Yn y cyfnod hwn o argyfwng economaidd mae Newydd wedi penderfynu canolbwyntio ar sicrhau fod tenantiaid yn cael mynediad i gynnyrch a gwasanaethau ariannol addas, a helpu tenantiaid i drechu'r wasgfa gredyd. Felly yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) fe fyddwn ni hefyd yn cynnal 'Marchnad Arian' yn yr Hub yn y Barri ddydd Mercher 16 Medi 2009.

Dewch chi draw i ymweld â'r stondinwyr a fydd yn rhoi cynghorion arbenigol ar sut i wneud y gorau o'ch incwm a gwneud i'ch arian fynd ymhellach! Bydd yno hefyd gweithdai a siaradwyr gwadd. Bydd adnoddau crèche ar gael a lluniaeth yn cael ei ddarparu a phob costau teithio yn cael eu had-dalu.

Bydd 'Crunchie' yn cael ei roi am ddim i bawb sy'n bresennol!

Bydd mwy o fanylion am y digwyddiad yn cael eu rhoi yn nes at yr amser!

cael trafferth i dalu'ch rhent?

Os ydych chi'n cael anhawster i dalu'ch rhent mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i'ch Swyddog Tai cyn gynted ag sy'n bosib.

Peidiwch ag anwybyddu'r broblem. Fydd hi ddim yn diflannu, a'r hiraf yr ydych chi'n gadael iddi, gwaethaf yn y byd fydd hi'n mynd.

Efallai y byddwn ni'n gallu:

- Rhoi help a chyngor i chi ar hawlio Budd-dal Tai a budd-daliadau lles eraill.
- Eich rhoi mewn cysylltiad ag arbenigwr a / neu asiantaethau annibynnol a fydd yn eich helpu gyda chwnsela dyledion a rheoli'ch arian yn effeithiol.
- Gwneud trefniadau gyda chi i'ch galluogi i glirio'ch dyledion presennol trwy randaliadau cyson.

Mae'ch cartref mewn perygl os na fyddwch chi'n parhau i dalu unrhyw daliadau y cytunwyd arnyn nhw a fydd gan Newydd ddim dewis ond gweithredu'n gyfreithiol trwy'r llysoedd a allai arwain at gael eich troi allan o'ch cartref.

Os byddwch chi'n cael eich troi allan bydd Dyfarniad Llys Sirol yn ei gwneud hi'n anodd i chi gael credyd ac fe fyddwch chi'n dal yn agored i orfod talu unrhyw ddyled y byddwch wedi ei gadael ar ôl. Fe allech chi hefyd ddarganfod na fydd yr Awdurdod Lleol a darparwyr tai cymdeithasol eraill yn eich helpu gydag ail-gartrefu.

Dim ond wedi i bethau fynd i'r pen y byddwn ni'n troi pobl allan, ar ôl i ni fethu cydweithio gyda'r tenant i ddatrys y dyledion rhent. Os ydych chi'n pryderu am eich dyledion neu'ch taliadau rhent dewch i siarad gyda ni os gwelwch yn dda.

Allai talu'ch rhent ddim bod yn haws.
Mae gennym ni 6 ffordd syml o dalu'r rhent:

Trwy Ddebyd Uniongyrchol
Trwy Orchymyn Banc
Trwy Gerdyn Allplay
Yn eich Swyddfa Ardal
Yn eich Swyddfa Bost
Trwy Siec yn y post

DIRECT Debit
allpay·net
POST OFFICE®
PayPoint

dryslyd am eich tâl gwasanaeth?

Eleni rydyn ni wedi adolygu'r ffordd yr ydyn ni'n anfon gwybodaeth allan am dâl gwasanaeth. Dywedodd grŵp gorchwyl a gorffen wrthym fod tenantiaid yn gweld holl fater tâl gwasanaeth yn ddryslyd ac y gallai'r wybodaeth a anfonir allan fod yn llawer gwell.

Mae'n polisi tâl gwasanaeth newydd yn cynghori y bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei rhoi i denantiaid, prydleswyr a pherchnogion cartrefi:

- Bydd gwybodaeth yn cael ei roi i denantiaid ar ddechrau eu tenantiaeth yn amlinellu pa wasanaethau y maen nhw'n talu amdanynt, gan gynnwys mynychder ac ansawdd y gwasanaeth.
- Bydd digwyddiad ymgynghori ynghylch taliadau gwasanaeth yn cael ei gynnal yn flynyddol gyda'n holl denantiaid / prydleswyr a pherchnogion cartrefi sy'n talu cost gwasanaethau.
- Bydd cyfriflen flynyddol yn rhoi dadansoddiad o gostau gwasanaeth yn cael ei hanfon at yr holl denantiaid, prydleswyr a pherchnogion cartrefi sy'n talu costau gwasanaeth.

Er mwyn gwneud yn siŵr fod y wybodaeth yr ydym yn ei anfon allan mor hawdd ei ddeall ag sy'n bosib, bu Jo ac Ellen, sy'n denantiaid yn Aberaman, yn gweithio gyda staff a'r Panelau Cymunedol i ddatblygu'r gyfriflen tâl gwasanaeth newydd a dyma sut mae'n edrych:

Caiff y gwasanaethau a dderbyniwchl eu ticio isod	Eich contractwr	Faint a dalwch chi	Pryd y gwneir y gwaith
Cynnal a chadw'r tir – torri glaswellt a chwynnu gwelyau blodau (Dim ond yn ystod yr haf y caiff glaswellt ei dorri)	Grounds Maintenance Wales	£2.84	Misol
Goleuadau landlord – cyflenwad pŵer cymunol	D/b	£0.03	D/b
System erialau teledu Gwasanaethu a dibrisio	Elite Aerials	£0.09	Blynyddol
Cyfanswm eich tâl wythnosol yw		**£2.96**	

Cafodd yr atodlenni newydd eu hanfon allan ddiwedd Chwefror a chawsom lawer o adborth cadarnhaol gan denantiaid a staff.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am eich cyfriflen cost gwasanaeth ddiweddar cysylltwch â'ch Swyddog Tai.

siopa dirgel

Unwaith eto mae grŵp ymroddgar o denantiaid Newydd wedi bod yn rhoi prawf ar y gwasanaeth a gewch trwy 'Siopa Dirgel'. Mae'r gwirfoddolwyr yn ffonio pob un o swyddfeydd Newydd a gofyn cwestiynau sydd wedi eu paratoi er mwyn profi a ydyn ni'n darparu'r gwasanaeth yr ydyn ni'n ei addo yn ein Safonau Gwasanaeth.

Hyd yma mae'r Siopwyr Dirgel yn adrodd fod y gwasanaeth yn dda ar y cyfan er bod angen i ni wella'r ffordd yr ydyn ni'n ateb negeseuon sy'n cael eu gadael naill ai gyda staff neu ar ein peiriannau ateb ffôn.

Rydyn ni bob amser yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr i ymuno â'r Siopwyr Dirgel – bydd angen i chi wneud oddeutu 12 galwad i'r Gymdeithas bob tri mis ac adrodd yn ôl beth a ddigwyddodd. Rydyn ni'n rhoi hyfforddiant a chefnogaeth lawn ac yn rhoi talebau i bob un o'r Siopwyr Dirgel fel arwydd o ddiolch. Mae tenantiaid yn cael eu dewis yn ol trefn yr wyddor.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno, neu os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth, cysylltwch ag un o'n swyddfeydd tai:

Swyddfa'r Fro: 01446 701501
Swyddfa'r Cymoedd: 01443 408080
Swyddfa'r Drenewydd: 01686 621965

Cynllun Yswiriant Cynnwys My Home

My Home
Contents Insurance

10
rheswm i ddewis cynllun yswiriant cynnwys My Home

- Opsiynau talu hyblyg rheolaidd talu wrth fynd.
- Dim ffws, cyflym a rhwydd i wneud cais un ai drwy'r post neu dros y ffôn.
- Dim gordal (nid ydych yn talu rhan gyntaf yr hawliad).
- Cynnwys lladrad, difrod dŵr a thân.
- Cynnwys difrod i addurniadau mewnol.
- Cynnwys difrod damweiniol i osodiadau sanidol megis toiledau a basnau ymolchi.
- Cynnwys difrod i wydr allanol yr ydych yn gyfrifol amdano.
- Cynnwys allweddi a gollir neu a gaiff eu dwyn a chynnwys rhewgelloedd.
- Nid yw'n rhaid i cael cloeon arbennig ar ddrysau neu ffenestri.
- Cynhwysir pob cod post.

Mae symiau a yswirir ar gael o £6,000 i £35,000; cynhwysir pob premiwm, amodau a thelerau o fewn y pecyn gwybodaeth rhad ac am ddim

Gofynnwch i'ch swyddfa Newydd leol am becyn gwybodaeth neu ffonio 0845 337 2463.

business for neighbourhoods

Cartrefi Cymunedol Cymru Community Housing

NATIONAL HOUSING FEDERATION

JARDINE LLOYD THOMPSON
Tenant Risks

Mae Cynllun Yswiriant Cynnwys My Home y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol yn enw cynnyrch a drefnwyd gan ac a weinyddir ar ran y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol gan Jardine Lloyd Thompson Tenant Risks. Adran o Jardine Lloyd Thompson UK Cyfyngedig. Brocer Lloyd's. Awdurdodir a rheoleiddir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Aelod o Grŵp Jardine Lloyd Thompson. Swyddfa Gofrestredig: 6 Crutched Friars, Llundain EC3N 2PH.
Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 244 2321 96. Mae'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a Cartrefi Cymunedol yn Gynrychiolwyr Penodedig Jardine Lloyd Thompson UK Cyfyngedig.

Datganiad Cyfranogiad Preswylwyr

Mae Cymdeithas Tai Newydd yn credu mewn cyflenwi'r gwasanaethau tai gorau bosibl i'w phreswylwyr i gyd. I gyflawni hynny, rydyn ni'n credu fod swyddogaeth tenantiaid, preswylwyr a phartneriaid yn bwysig o ran gwneud yn siŵr fod ein gwasanaethau'n adlewyrchu barn y bobl a'r cymunedau yr ydyn ni'n gweithio gyda nhw.

Yn Newydd, rydyn ni'n teimlo fod cynnig ffyrdd hyblyg o gymryd rhan yn cynnig cyfle i bob un o'n tenantiaid roi gwybod i ni beth maen nhw am i ni ei gyflawni yn y ffordd fwyaf addas ar gyfer unigolion.

Yn Newydd fe fyddwn ni'n:

- Egluro sut y gall ein tenantiaid gymryd rhan
- Rhoi amrywiaeth o ffyrdd o gyfranogi yn unol ag anghenion ein tenantiaid
- Sicrhau fod cyfranogiad tenantiaid yn ganolog i'n gwaith
- Dangos i chi sut y mae'ch cyfranogiad wedi gwneud gwahaniaeth

Beth ydyn ni'n ei wneud:

Panel Cymunedol – mae gan Newydd panel o denantiaid a bydd yn ymgynghori gyda'r Panel ar bob mater.

Arolwg tenantiaid – cyfle i chi fynegi'ch barn am bob un o wasanaethau Newydd.

Cylchlythyrau – y newyddion diweddaraf i chi ei ddarllen am bopeth sy'n digwydd o fewn y sefydliad ac ar ein stadau.

Newydd 90 – cyfle i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan fynegi barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau Newydd.

Grwpiau Ymgynghorol – ymgynghori gyda nifer o grwpiau sy'n ymwneud ag un pwnc penodol (e.e. Anabledd a Chydraddoldeb) gan gydweithio i wella gwasanaethau.

Gwybodaeth Hygyrch – dogfennau ar gael yn yr iaith (e.e. Cymraeg) neu fformat (e.e. print bras) sydd fwyaf addas ar gyfer anghenion tenantiaid.

Grwpiau Gorchwyl a Gorffen – cyfle i denantiaid weithio gyda staff er mwyn gwella agweddau penodol o'n gwasanaeth (rydyn ni eisoes wedi cael grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn edrych ar bolisïau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chost gwasanaethau).

Gwyliau a Digwyddiadau Tenantiaid – cyfle i gwrdd â thenantiaid eraill a chael mynediad at staff a gwybodaeth mewn digwyddiad hwyliog.

Aelodaeth o'r Bwrdd – cynhelir etholiadau bob blwyddyn i roi cyfle i unrhyw un sefyll ar gyfer cael eu hethol ar Fwrdd Newydd.

Grwpiau Tenantiaid – cyllido a chefnogi grwpiau tenantiaid. Os oes gyda chi ddiddordeb fe allwn ni'ch cyfeirio at eich grŵp lleol. Os nad oes grŵp yn eich ardal chi fe fyddwn ni'n eich helpu i sefydlu grŵp er mwyn gwella'ch cymuned.

CCB Newydd – gwahoddwn ein tenantiaid i fynychu'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ble gallwch chi ddysgu mwy am ein gwaith yn ogystal â mynegi'ch syniadau eich hunan.

Panelau Darllen Newydd – mae'r Panel Darllen yn gweld yr holl wybodaeth i denantiaid cyn ei hanfon. Tenantiaid yw aelodau'r Panel a'r nod yw gwneud yn siŵr fod pob dogfen yn glir ac yn hawdd ei darllen

Diddordeb? Os byddech chi'n hoffi cymryd rhan yn unrhyw un o'r agweddau hyn o'n gwaith neu os hoffech chi gael copi o'n Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid llawn, cysylltwch â'ch SwyddogCyfranogiad Tenantiaid lleol

Ardal y Cymoedd
Keiron Montague (01443 408080) neu trwy e-bost ar keiron.montague@newydd.co.uk

Ardal y Fro
Tracy James (01446 701501) neu trwy e-bost ar tracy.james@newydd.co.uk

Rhowch wybod os gwelwch yn dda os hoffech chi dderbyn y ddogfen hon yn unrhyw iaith neu fformat arall